

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd) Canolfan Enwaedu Cymru a Chlinig Excel, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 22 Ionawr 2025

Dyddiad cyhoeddi: 24 Ebrill 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	Ansawdd Profiad y Claf	9
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
4.	Y camau nesaf	23
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	24
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	25
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	27

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Enwaedu Cymru a Chlinig Excel, Caerdydd ar 22 Ionawr 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o uwch-arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nododd yr holl ymatebion gan gleifion i'r holiadur fod y gwasanaeth yn 'dda iawn', gan ganmol y staff a oedd yn barod eu cymwynas, yn broffesiynol ac yn dangos dealltwriaeth.

Roedd y clinig yn arddangos rhywfaint o wybodaeth hybu iechyd ond roedd angen rhagor o ddeunyddiau dwyieithog. Roedd gwybodaeth ôl-ofal yn cael ei darparu ar ôl triniaethau. Roedd y staff yn gynnil, yn sensitif ac yn sicrhau urddas y cleifion, roedd modd cloi drysau'r ystafelloedd trin ac roedd polisiau hebryngwyr ar waith.

Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth glir, ddealladwy ac roeddent yn cydsynio i driniaethau. Roedd adborth yn cael ei gasglu ar-lein ac roedd galwadau dilynol yn sicrhau bodlonrwydd y cleifion. Roedd y costau yn dryloyw ac roedd y cyfarwyddiadau ôl-ofal yn glir.

Roedd y clinig yn hygyrch, ac roedd cyfleusterau i gleifion ag anghenion ychwanegol. Roedd triniaethau yn cael eu trefnu er mwyn sicrhau cyn lleied o ofid â phosibl ac roedd y staff yn rhoi tawelwch meddwl ac esboniadau clir. Roedd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu parchu.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arddangos mwy o wybodaeth am sut y gall cleifion helpu eu hiechyd a'u llesiant
- Arddangos mwy o wybodaeth yn Gymraeg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn gynnil, yn sensitif ac yn sicrhau urddas y cleifion.
- Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth glir a dealladwy ac yn cydsynio i driniaethau
- Roedd y clinig yn hygyrch, ac roedd cyfleusterau i gleifion ag anghenion ychwanegol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd safle'r clinig yn ddiogel ac yn lân, a dim ond cleifion a'u gofalwyr oedd yn gallu dod i mewn i'r clinig. Roedd y risgiau i iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli'n dda, gydag asesiadau cyfredol a chynlluniau ymateb i argyfwng.

Roedd y mesurau rheoli heintiau yn effeithiol, gyda chyfleusterau hylendid dwylo, cyfarpar diogelu personol (PPE) ac amserlenni glanhau ar waith. Roedd y clinig yn defnyddio awtoclaf a glanhawr uwchsain i sterileiddio'r cyfarpar. Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio a'u rheoli'n ddiogel, gyda chofnodion clir a hyfforddiant i'r staff.

Roedd adnoddau a hyfforddiant diogelu ar gael ac roedd gan y clinig ddyfeisiau a chyfarpar meddygol priodol. Roedd gweithgareddau gwella ansawdd yn cynnwys archwiliadau a sesiynau dilynol i gleifion. Roedd trefniadau rheoli gwybodaeth diogel ar waith, gyda chofnodion meddygol clir a chywir. Roedd y clinig yn sicrhau bod y cleifion wedi rhoi cydsyniad ac yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr er mwyn iddynt wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Roedd angen rhagor o wybodaeth yng nghofnodion y cleifion ar y gwaith a oedd eisoes yn cael ei wneud i archwilio hanes meddygol, cydsyniad, esboniadau a'r cyfarwyddiadau a roddwyd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd safle'r clinig yn ddiogel ac yn lân
- Roedd y risgiau iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli'n dda
- Roedd y mesurau rheoli heintiau yn effeithiol
- Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio a'u rheoli'n ddiogel, gyda chofnodion clir.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y gwasanaeth yn cael ei arwain yn dda gyda llinellau adrodd clir a fframwaith cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau. Roedd y rheolwr cofrestredig yn adolygu'r holl bolisiâu a gweithdrefnau, gan sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn hygyrch ar yriant a rennir y clinig. Roedd tystysgrifau cofrestru AGIC yn cael eu harddangos yn gywir ac roedd gan y clinig yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac atebolrwydd cyhoeddus dilys.

Roedd prosesau ar waith i reoli pryderon a chwynion, a oedd wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion, ond roedd angen i'r weithdrefn gwyno fod yn fwy amlwg a chynnwys manylion am y personél cyfrifol. Dim ond un gŵyn a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a gafodd ei datrys yn foddhaol. Argymhellwyd y dylid defnyddio cofnodlyfr cwynion i olrhain a nodi themâu.

Roedd gan y clinig broses recriwtio ddiogel, gan gynnwys gwiriadau cyn cyflogi a thystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Roedd angen system i sicrhau bod y staff yn rhoi gwybod am newidiadau i'w statws mewn perthynas â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd breintiau ymarfer yn cael eu rhoi i glinigwyr eraill.

Roedd y lefelau staffio yn ddigonol, gyda staff cymwysedig a chymwys. Roedd prosesau sefydlu ar waith ac roedd y cofnodion hyfforddiant gorfodol yn gyfredol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Y broses gwyno, gan gynnwys y wybodaeth yn y weithdrefn a'r cofnodlyfr cwynion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Llinellau adrodd clir a fframwaith cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau
- Roedd gan y clinig broses recriwtio ddiogel
- Lefelau staffio â staff cymwysedig a chymwys.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal yng Nghanolfan Enwaedu Cymru a Chlinig Excel ar gyfer yr arolygiad ym mis Ionawr 2024. Cafwyd cyfanswm o 12 o ymatebion gan gleifion yn y lleoliad hwn.

Ar y cyfan, roedd sylwadau'r ymatebwyr yn gadarnhaol, a dywedodd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'. Nodir un o'r sylwadau a gafwyd ar y lleoliad isod:

“Roedd [y meddyg] a'r staff yn barod iawn eu cymwynas, yn broffesiynol ac yn llawn dealltwriaeth. Roeddwn yn teimlo'n gyfforddus iawn drwy gydol fy ymweliad. Cafodd popeth ei esbonio'n glir. Byddwn yn argymhell CCW i unrhyw un.”

Diogelu a gwella iechyd

Roedd rhywfaint o wybodaeth i'w gweld a oedd yn hyrwyddo ffyrdd o fyw iach i gleifion a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth gan Cancer Research UK ynghylch nodi canser yn gynnar, gwybodaeth am roi'r gorau i smygu, cadw'n ddiogel yn yr haul a sut gall adnabod arwyddion canser yn gynnar achub bywydau (i ddynion). Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn dweud eu bod yn cael trafferth dod o hyd i wybodaeth, yn enwedig taflenni, yn Gymraeg.

Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth ôl-ofal i gleifion yn cael ei hargraffu ar ôl triniaethau yn y clinig, a'i rhoi i'r claf, yn ogystal â llythyr wedi'i selio i'w roi i feddyg teulu'r claf.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod mwy o wybodaeth yn cael ei harddangos yn y clinig am y ffordd y gall cleifion helpu eu hiechyd a'u llesiant. Dylai'r wybodaeth hon fod yn ddwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg, lle bo hynny ar gael.

Urddas a pharch

Nid oedd unrhyw gleifion yn y clinig ar ddiwrnod ein harolygiad. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael eu cyfarch wrth iddynt gyrraedd a bod y staff yn cael eu cyflwyno iddynt yn anffurfiol.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn gynnil ac yn sensitif wrth siarad a'u bod yn siarad yn dawel. Roedd pob apwyntiad wedi'i drefnu am awr er mwyn dangos parch at y claf a gwneud iddo deimlo bod yr apwyntiad yn bersonol. Roedd modd cloi drws pob ystafell drin, ac roedd bleinds yn yr ystafell lawfeddygol er mwyn cynnal urddas y claf. Roedd y clinig yn caniatáu i un rhiant neu ofalwr aros gyda'r claf yn ystod y driniaeth.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ddymunol ac yn ofalgar a rhoesant enghreifftiau o sut roeddent yn cefnogi cleifion a gofalwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth.

Ni fyddai unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei thrafod wrth ddesg y dderbynfa.

Roedd hysbysiadau hebryngwyr ar ddrws pob ystafell glinigol. Y derbynnydd oedd yn gweithredu fel yr hebryngwr fel arfer. Roedd polisi hebryngwyr cynhwysfawr ar gael. Roedd y polisi hwn yn cyflwyno'r egwyddorion ac yn amlinellu'r gweithdrefnau sydd ar waith i hebrwng cleifion yn briodol yn ystod archwiliadau, ymchwiliadau ac wrth roi gofal. Roedd yn seiliedig i raddau helaeth ar y Fframwaith Hebryngwyr Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Dîm Cymorth Llywodraethu Clinigol y GIG, ym mis Mehefin 2005.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y staff wedi'u trin ag urddas a pharch a bod camau'n cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd yn ystod eu hapwyntiad yn y clinig. Roeddent hefyd yn cytuno bod y staff wedi gwrando arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd cleifion yn cael y wybodaeth gywir pan oedd ei hangen arnynt, mewn ffordd y gellid ei deall yn hawdd er mwyn gwneud y dewisiadau gorau.

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion ar gael i gleifion a oedd yn cael eu harddangos yn glir yn ardal y dderbynfa. Roedd y ddau yn cynnwys y wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau perthnasol.

Roedd y wybodaeth sy'n ofynnol cyn cael triniaeth ar gael ar wefan y clinig. Ar ôl i'r claf drefnu apwyntiad, byddai'r apwyntiad hwnnw yn cael ei gadarnhau drwy e-bost, a fyddai'n cynnwys gwybodaeth i'r claf am sut i baratoi ar gyfer y driniaeth, yn ogystal â holiadur iechyd i'w gwblhau. Yna byddai'r clinigydd yn cadarnhau'r wybodaeth hon gyda'r claf cyn y driniaeth. Byddai cleifion yn cael eu holi i ganfod pa iaith y byddai'n well ganddynt ar gyfer y wybodaeth ôl-ofal, a dywedwyd wrthym y byddai'n cael ei darparu yn Saesneg ac yn eu dewis iaith.

Roedd polisi cyfredol ar waith o ran galluedd i gydsynio ar gyfer triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd adborth gan gleifion yn y clinig yn cael ei roi gan ddefnyddio adnodd adolygu ar-lein, gyda hysbysiad yn y dderbynfa a oedd yn rhoi cyfarwyddyd i gleifion ar sut i ddarparu'r adolygiad. Dywedwyd wrthym y byddai'r claf yn cael galwad ffôn ddilynol ar ôl y driniaeth i sicrhau ei fod yn fodlon ar y canlyniad. Roedd canlyniadau'r adborth yn cael eu cynnwys ar hysbysiad 'dywedoch chi, gwnaethom ni' yn y dderbynfa.

Roedd costau'r driniaeth a'r gwasanaethau i'w gweld ar wefan y clinig.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ar ôl eu triniaeth a chanllawiau clir ar yr hyn i'w wneud ac â phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt haint neu mewn argyfwng. Dywedodd pob un o'r cleifion hefyd fod y gost wedi cael ei hegluro iddynt cyn iddynt gael eu triniaeth a bod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod pob cam.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd trefniadau ar waith er mwyn helpu'r staff i ofalu am gleifion ag anghenion ychwanegol. Roedd y clinig ar lawr gwaelod yr adeilad ac roedd lle parcio y tu allan i fynedfa'r clinig. Roedd modd mynd i mewn i'r clinig mewn cadair olwyn ac roedd toiledau ar gael i bobl anabl. Dywedwyd wrthym fod dull synnwyr cyffredin wedi'i deilwra at yr unigolyn yn cael ei ddefnyddio i ymdrin â materion gwybyddol.

Fel arfer, byddai cleifion yn cael eu gweld o fewn pythefnos. Roedd slotiau awr o hyd yn cael eu neilltuo ar gyfer triniaethau fel enwaediadau er mwyn darparu digon o amser i fabanod a fyddai o bosibl wedi cynhyrfu ac i leihau unrhyw sŵn a thrallod i eraill. Roedd digon o staff yn y clinig i ymdopi â'r gwaith, ac roedd y clinig hefyd yn ystyried cyflogi un aelod arall o staff. Byddai cleifion a oedd yn aros am driniaeth yn cael gwybod gan staff y dderbynfa am yr amseroedd aros ac unrhyw reswm dros oedi wrth weld gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn rhoi tawelwch meddwl i gleifion cyn y driniaeth ac yn esbonio'r driniaeth mewn ffordd syml iddynt. Byddai'r driniaeth hefyd yn cael ei hesbonio i gleifion wrth iddi fynd rhagddi er mwyn parhau i roi tawelwch meddwl iddynt. Dywedwyd wrthym y byddai'r swcros a'r llaeth a oedd yn cael eu defnyddio yn tawelu babanod. Byddai'r cyfarwyddiadau ôl-ofal hefyd yn cael eu hesbonio i gleifion gan ddefnyddio lluniau i hwyluso'r broses.

Dywedodd y 12 claf a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi cael triniaeth. Gwnaethant ddweud eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael a risgiau a manteision yr opsiynau hyn a'u bod yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal digonol. Dywedodd y cleifion hefyd eu bod

wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent yn y broses o wneud penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd y clinig yn hygyrch iawn i gleifion ag anawsterau symudedd neu'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd drysau llydan a thoiled hygyrch. Nododd y staff y byddent yn helpu'r cleifion lle bo angen a phan oeddent yn ymwybodol o unrhyw anawsterau er mwyn sicrhau y gallent ddod i'r clinig. Roedd hyn yn dangos bod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau pobl.

Gwelsom bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth a thystiolaeth fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Cawsom sicrwydd y byddai hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu fel mater o drefn, ac y byddai rhagenwau a ffefrir yn cael eu defnyddio.

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gael gfael ar y gwasanaethau neu wrth ddefnyddio gwasanaethau'r clinig a'u bod yn teimlo y gallent gael gfael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir p'un a oedd ganddynt unrhyw nodweddion gwarchodedig ai peidio.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd cleifion yn cael eu hannog i ddarparu adborth am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth drwy lwyfan ar-lein i ddarparu adolygiadau busnes. Roedd y gwasanaeth yn ystyried symud i beiriant chwilio a oedd yn hyrwyddo'r gwasanaeth yn ogystal â chasglu adolygiadau ac adborth. Byddai'r gwasanaeth yn diolch i'r adolygwyr am unrhyw adolygiadau cadarnhaol ac yn ceisio ymdrin ag unrhyw adolygiadau negyddol.

Roedd y gwasanaeth wedi cyflwyno poster “dywedo chi, gwnaethom ni” yn ddiweddar a oedd yn cynnwys y newidiadau a wnaed, megis gosod dau arwydd ar y brif ffordd er mwyn cyfeirio cleifion i'r clinig a newid y glud croen a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhai triniaethau.

Roedd y datganiad o ddiben diwygiedig yn cynnwys crynodeb o safbwyntiau'r cleifion. Mae'r cleifion yn aml yn canmol amgylchedd cyfeillgar a lleddfol y clinig. Roedd sylwadau adolygwyr yn y datganiad o ddiben yn cynnwys:

“Roedd {y meddyg} a'i gynorthwyydd yn wych. Yn barod iawn eu cymwynas, yn amyneddgar ac yn empathetig. Cafodd y driniaeth ei chwblhau â'r gofal a'r lefelau hylendid gorau posibl. Rwy'n argymhell y clinig yn fawr.”

“Er bod meddwl am y broses enwaedu yn eithaf brawychus, roedd y gwasanaeth yn CCW o'r radd flaenaf. Pobl broffesiynol hollol hyfryd, cyfeillgar a gofalgarn. Rwy'n argymhell y clinig yn fawr”

“Staff cyfeillgar iawn ac amgylchedd hamddenol. Cefais brofiad da gyda nhw. Esboniwyd yr ôl-ofal yn dda. Cyfathrebu da. Yn ddi-os, byddwn yn argymhell y clinig”

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Ystyriwyd bod y safle yn ddiogel ac yn addas at y diben. Roedd seinydd ac intercom yn cael eu defnyddio i gael mynediad i'r clinig a dim ond cleifion a'u rhieni neu ofalwyr oedd yn gallu dod i mewn. Roedd y safle yn lân ac yn ddiogel yr olwg, ac roedd yr holl ddodrefn, gosodiadau a ffitiadau mewn cyflwr da. Nid oedd unrhyw beryglon amlwg fel annibendod a pheryglon baglu.

Roedd y rhagofalon tân yn cael eu rheoli gan y cwmni rheoli cyfleusterau a oedd yn cael ei gyfylogi gan landlord y safle. Roedd y clinig wedi ysgrifennu asesiad risg tân. Gwelsom gopi o'r ddogfen, sef 'Fire safety and maintenance', a oedd yn dangos tystiolaeth o'r gwiriadau rheolaidd a oedd yn cael eu cynnal gan y cwmni rheoli cyfleusterau. Roedd hyn yn cynnwys y gwiriadau wythnosol o'r larwm tân. Roedd pob aelod o staff y clinig wedi cael hyfforddiant ar ddiogelwch tân a'r protocolau perthnasol.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd y clinig wedi cymryd mesurau priodol i reoli'r risg i iechyd a diogelwch. Roedd asesiad risg iechyd a diogelwch yn y gweithle addas wedi'i ysgrifennu, a oedd yn gyfredol. Roedd trefniadau addas ar waith hefyd i ymateb i argyfyngau cleifion.

Roedd y cynllun parhad busnes wedi'i ddylunio i baratoi'r clinig i ymdopi ag effeithiau argyfwng. Roedd y ddogfen yn darparu cyfarwyddiadau er mwyn gallu parhau i gynnal swyddogaethau busnes y clinig neu ailafael yn gyflym ynddynt pe byddai unrhyw beth yn tarfu'n sylweddol arnynt.

Roedd peryglon amgylcheddol wedi'u hystyried, roedd arwyddion i ddangos presenoldeb ocsigen fflamadwy, ac roedd y cwpwrdd Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) wedi'i labelu'n glir. Roedd bin offer miniog ar gael ac roedd y bin gwastraff clinigol hefyd wedi'i farcio'n glir. Roedd gwyntyll echdynnu a hidlydd aer gronynnol hynod effeithlon (HEPA), a oedd yn effeithiol wrth ddal gronynnau o bron pob maint, yn bresennol.

Roedd troli adfywio yn cynnwys offer priodol ar gael, gan gynnwys diffibriliwr allanol awtomataidd, yn ogystal â chyfarpar llwybr anadlu ac anadlu, hylifau a chyffuriau brys. Roedd siartiau llif wedi'u lamineiddio yn dangos beth i'w wneud mewn argyfwng hefyd wedi'u cynnwys fel rhan o'r cyfarpar. Roedd dyddiadau dod i ben wedi'u cofnodi ar y cyfarpar ac roedd gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal o'r cyfarpar a'r dyddiadau dod i ben.

Roedd pob claf yn teimlo bod yr adeilad yn hygyrch. Nododd dau glaf:

“Mae’n berffaith i bobl anabl.”

“{Mae’n hygyrch} i bobl anabl hefyd.”

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd cleifion yn cael eu hamddiffyn rhag heintiau sy’n gysylltiedig â gofal iechyd, a hynny drwy’r trefniadau i hyrwyddo prosesu atal a rheoli heintiau a dihalogi effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys y cyfleusterau ar gyfer hylendid dwylo a diheintio dwylo. Roedd cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hwylus i’r staff ac ymwelwyr.

Gwelwyd yr amserlenni glanhau a thystiolaeth eu bod wedi cael eu dilyn yn nerbynfa’r clinig. Roedd trefniadau addas ar waith gyda chlodwr gwastraff, a gwelsom y copi o’r contract presennol.

Nid oedd archwiliadau hylendid dwylo wedi’u dogfennu a chan mai dim ond dau neu dri aelod o staff oedd yn y clinig, byddai’n anodd ei archwilio.

Roedd cyngor a chymorth iechyd galwedigaethol ar gael drwy gwmni iechyd galwedigaethol preifat a oedd yn cael ei gyflogi.

Roedd polisïau cyfredol ar gael ar atal a rheoli heintiau a dihalogi ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant hyd at y lefel ofynnol.

Roedd y cyfarpar diogelu personol a ddefnyddiwyd yn cynnwys ffedogau, menig, capiau a masgiau ar gyfer triniaethau, ac roeddent oll ar gael yn hwylus ac yn cael eu gwaredu fel rhan o’r gwastraff clinigol. Roedd sinciau ymolchi ym mhob ystafell, gyda thywelion papur, glanhawr croen gwrthficrobaidd cryfder ysbyty a gel gwrthfacterol.

Roedd yr amgylchedd yn galluogi prosesau rheoli heintiau effeithiol gyda lloriau caled ac arwynebau yr oedd modd eu sychu’n lân.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall prosesau rheoli heintiau a’u rôl ac yn nodi bod y cyfarpar cywir ar gael. Roedd yr ystafelloedd trin yn cael eu glanhau ar ôl pob triniaeth ac roedd yr ystafelloedd ymgynghori yn cael eu glanhau bob dydd. Roedd y staff yn ymwybodol o’r weithdrefn i’w dilyn ar ôl anaf o ganlyniad i nodwydd ac roedd siartiau wedi’u lamineiddio yn rhoi cyfarwyddiadau i’r staff eu dilyn pe bai angen.

Roedd gan y clinig awtoclaf, a oedd yn defnyddio stêm i ddiheintio cyfarpar, a glanhawr uwchsain, a oedd yn defnyddio techneg uwchsain i lanhau cyfarpar amlbro. Yna, byddai'r cyfarpar glân yn cael ei storio mewn bagiau di-haint tan iddo gael ei ddefnyddio eto.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y lleoliad yn 'lân iawn' a bod mesurau rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau ar waith yn y clinig a oedd wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar. Gwelsom mai dim ond meddyginiaethau roedd eu hangen ar gyfer triniaethau oedd yn cael eu storio ar y safle. Gwelwyd bod y systemau ar gyfer monitro ac archebu stociau meddyginiaeth yn gadarn. Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd y clinig yn defnyddio system ar-lein i storio cofnodion cywir o'r holl nodiadau a oedd yn ymwneud â chleifion. Roedd pob aelod perthnasol o'r staff yn cydymffurfio'n llawn â'i hyfforddiant gorfodol ar reoli meddyginiaethau.

Roedd meddyginiaethau yn cael eu rhoi a'u cofnodi'n gyson ac ar y pryd yn nodiadau'r cleifion ar gyfer pob triniaeth. Roedd y cofnodion meddyginiaeth yn glir ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Roedd cofnodlyfr digidol yn cael ei ddefnyddio o dan enw defnyddiwr y clinigydd.

Cafodd y system ar gyfer sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw o'r meddyginiaethau a oedd yn cael eu rhoi i'r cleifion, gan gynnwys gwybodaeth am alergeddau neu fannau sensitif, ei disgrifio ac roedd yn briodol.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i ddefnyddio silindrau ocsigen. Roedd yr uwch-aelodau o staff yn ymwybodol o'r trefniadau a oedd ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau yn ymwneud â silindrau ocsigen a sut i wirio adroddiadau ar ddigwyddiadau. Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau wedi bod. Roedd manylion cyswllt brys ar y silindr ac roedd y protocol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau ar yriant a rennir y clinig.

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau effeithiol ar waith a gweithdrefnau ategol a oedd yn ymdrin â phob agwedd ar reoli meddyginiaethau yn y sefydliad. Roedd polisi ar gyfer rheoli adweithiau andwyol a oedd yn sicrhau y rhoddir gwybod i Gynllun Cerdyn Melyn yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) am bob adwaith andwyol i gyffuriau, wedi'i gynnwys yn y polisi rheoli meddyginiaethau.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd adnoddau diogelu a manylion cyswllt gan gynnwys siart lif ar gael yn y clinig, ac roedd modd defnyddio rhaglen Gweithdrefnau Diogelu Cymru hefyd. Roedd y clinig wedi penodi arweinydd diogelu ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar ddiogelu.

Byddai'r driniaeth yn cael ei hesbonio i rieni cleifion o dan bump oed. I gleifion a oedd dros bump oed, byddai'r broses yn cael ei hesbonio'n syml i'r plentyn. Pe na fyddai'r plentyn yn cydymffurfio â'r driniaeth, yna ni fyddai'r driniaeth yn parhau. Byddai un rhiant yn bresennol yn ystod y driniaeth yn ogystal â'r hebryngwr.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan y gwasanaeth y cyfarpar a'r dyfeisiau meddygol cywir i ddiwallu anghenion y cleifion. Roedd dyfeisiau styffylu (untro ar gyfer oedolion), dyfais enwaedu untro uwch a chylchoedd Plastibell ar gyfer enwaedu babanod, yn cael eu defnyddio, gan fod y risg o waedu yn is na dulliau enwaedu eraill. Roedd offer llawfeddygol aml dro yn cael ei ddefnyddio ar gyfer triniaethau eraill.

Roedd y cyfarpar yn briodol ar gyfer ei ddefnydd bwriadedig a'r amgylchedd lle roedd yn cael ei ddefnyddio.

Roedd contractau gwasanaethu blynyddol ar waith fel y bo'n ofynnol er mwyn cynnal a chadw'r cyfarpar perthnasol. Roedd cyflenwyr y darnau cyfarpar gwahanol ar gael ar gyfer unrhyw waith atgyweirio.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd archwiliadau yn cael eu cynnal i fonitro gofal cleifion, gan gynnwys archwiliadau o achosion o waedu mewn babanod er mwyn ymdrin â phwyntiau dysgu fel mesur cylchoedd yn well ac addysgu rhieni er mwyn lleihau'r cymhlethdodau hyn. Roedd pob claf yn cael cynnig apwyntiad dilynol. Dywedwyd wrthym y byddai archwiliad yn cael ei gynnal o'r trefniadau ar gyfer cadw cofnodion yn y dyfodol.

Byddai pob ymarferydd yn mynychu hyfforddiant a chynadleddau perthnasol, yn ogystal â dilyn canllawiau cyfredol. Yr unig heriau yn ymwneud â lefelau staffio neu hyfforddiant a oedd yn effeithio ar ofal cleifion, oedd y gallu i reoli lefelau staff yn unol â galw a thwf y sefydliad.

Roedd gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu i gleifion a theuluoedd a oedd am drefnu enwaediad gwrywaidd mewn ffordd a oedd yn parchu hawliau'r plentyn i'r eithaf. Roedd gan bob clinigydd a oedd yn ymgymryd â'r driniaeth gymwysterau addas a'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad perthnasol i gyflawni'r triniaethau mewn modd diogel.

Roedd adnoddau ar-lein a gwybodaeth ar ôl trefnu apwyntiad ac e-bost cadarnhau a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y driniaeth, a oedd yn cael ei hatgyfnerthu cyn y driniaeth, yn sicrhau nad oedd gan y cleifion unrhyw amheuan nac ymholiadau. Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod rhieni a phlant (os ystyriwyd bod ganddynt alluedd) yn cael digon o wybodaeth i wneud dewis ar sail gwybodaeth.

Roedd y gwasanaeth yn sicrhau ei fod bob amser yn gweithredu er lles pennaf y plentyn wrth gynnal y driniaeth. I gleifion o dan flwydd oed, roedd hyn yn seiliedig ar gydsyniad gan riant. Nid oedd triniaethau yn cael eu cynnal ar blant rhwng un oed a phump oed. I blant dros bump oed, roedd angen i riant gydsynio, ond os na fyddai'r plentyn am fwrw ymlaen neu gydymffurfio â'r driniaeth, yna byddai'r driniaeth yn cael ei chanslo. Os oedd unrhyw arwyddion o anghytuno neu orfodaeth, byddai'r llawfeddyg yn cytuno i ohirio'r driniaeth ac yn trefnu ymweliad arall yn y dyfodol.

Roedd gan y gwasanaeth bolisi cyfredol a oedd yn gofyn am gydsyniad pawb â chyfrifoldeb rhiant cyn y driniaeth. Roedd gwiriadau hunaniaeth yn cael eu cynnal gan y staff, ac roedd angen prawf adnabod ffotograffig yn ogystal â thystysgrif geni os oedd ar gael. Roedd cydsyniad un rhiant yn dderbyniol os mai dim ond un rhiant oedd wedi'i nodi ar y dystysgrif geni.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd enghreifftiau o weithgareddau gwella ansawdd a sut roedd hyn wedi arwain at ganlyniadau gwell i gleifion.

Roedd yr archwiliad o achosion o waedu ar ôl llawdriniaeth yn cael ei gynnal ar ôl chwe mis er mwyn cael gwybod am fabanod ag unrhyw waedu trwm a gafodd eu trin y tu allan i oriau. Roedd y clinig yn edrych ar dechnegau llawfeddygol a sut roedd y rhiant yn mynd ati i newid cewynnau ac i ymolchi'r baban ac yn addysgu'r rhieni er mwyn lleihau nifer yr achosion.

Roedd triniaeth a oedd yn cael ei defnyddio gan y clinig wrth drin babanod, sef Plastibell, yn ffordd gyflym ac effeithiol o gwblhau'r driniaeth a oedd yn gynt na dulliau eraill a hefyd yn arwain at lai o waedu. Yn ogystal, roedd y driniaeth a oedd yn cael ei defnyddio ar gyfer oedolion yn defnyddio techneg styffylu mwy newydd a oedd yn cymryd llai nag 20 munud gan gynnwys yr amser paratoi, yn hytrach na 60 munud.

Byddai'r clinig hefyd yn archwilio heintiau, unwaith y bydd niferoedd digonol i'w dadansoddi.

Roedd y clinig yn llenwi'r ffurflen flynyddol i AGIC fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Dywedwyd wrthym fod data a gwybodaeth cleifion yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel. Roedd cofnodion papur yn cael eu rhwygo ar ôl iddynt gael eu mewnbynnu i'r system ddiogel a oedd yn cael ei defnyddio, a oedd wedi'i diogelu â chyfrinair.

Rheoli cofnodion

Cafodd sampl o bum cofnod meddygol eu gwirio a nodwyd bod y cofnodion yn glir, yn gywir ac yn ddarllenadwy ar y cyfan. Roedd y cofnodion yn hawdd eu dilyn, gyda chynllun rhesymegol ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth am yr holl ofal a thriniaethau a roddwyd yn ogystal â chanfyddiadau clinigol a chanfyddiadau triniaeth perthnasol. Roedd y cofnodion yn dangos bod cydsyniad dilys wedi'i roi, gan gynnwys unrhyw asesiad o alluedd meddyliol. Fodd bynnag, nid oedd gwiriad hunaniaeth un plentyn wedi'i gofnodi yn ei nodiadau.

Roedd y cofnodion meddygol yn cynnwys crynodeb cywir o gyflyrau arwyddocaol a meddyginiaethau hirdymor, a oedd wedi'i gynnwys gyda'r ffurflen gydsynio gan y rhiant. Dylai'r clinig ystyried cynnwys y wybodaeth hon o fewn y nodiadau cyn llawdriniaeth, yn ogystal â'r ffurflenni cydsynio.

Roedd anghenion y cleifion yn cael eu hasesu'n briodol. Dylai'r crynodeb o hanes meddygol a meddyginiaethau gael ei drafod â'r rhieni a'i grynhoi fel rhan o'r nodiadau trin, er mwyn cadarnhau'r drafodaeth am wybodaeth berthnasol.

Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth yn cael ei rhoi i gleifion am eu cyflwr, eu hopsiynau o ran ymchwiliadau a'r opsiynau rheoli, er mwyn iddynt allu deall eu hiechyd a'u salwch eu hunain. Roedd y wybodaeth hon yn cynnwys adnoddau ar-lein ac wedi'u hargraffu, ond nid oedd y broses hon bob amser wedi'i dogfennu. Dylid ystyried dogfennu pa wybodaeth a gafodd ei hystyried er mwyn darparu gwell tystiolaeth o'r drafodaeth.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod nodiadau'r cleifion yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Dogfennu gwiriadau hunaniaeth pob claf
- Adran ar y ffurflen er mwyn nodi a oes unrhyw hanes meddygol blaenorol ar gyfer plant
- Y crynodeb hanes meddygol a meddyginiaethau a drafodwyd â'r rhieni ac a gynhwyd yn y nodiadau trin
- Dogfennu pa wybodaeth a ystyriwyd a'r hyn a drafodwyd

- **Dylid hefyd gael cadarnhad dilynol o'r cydsyniad ar-lein pan fydd y claf yn y clinig a dylid dogfennu hyn.**

Dywedwyd wrthym hefyd fod y claf neu ei riant neu ofalwr yn cael llythyr i'w roi i'w meddyg teulu i esbonio'r driniaeth a roddwyd. Yn ddelfrydol, dylai'r clinig ei anfon, neu dylid ei gynnwys fel rhan o'r alwad ddilynol er mwyn gofyn i'r cleifion neu i'w hatgoffa y dylid rhoi'r llythyr i'w meddyg teulu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod yn cadarnhau a gafodd y llythyr ei roi i'r meddyg teulu fel rhan o'r alwad ddilynol ac atgoffa'r cleifion bod angen gwneud hynny.

Dywedodd pob un o'r cleifion yn yr holiadur bod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael triniaeth a'u bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth newydd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd y gwasanaeth yn cael ei arwain yn dda gyda llinellau adrodd clir a fframwaith clir a chadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn gyfrifol am adolygu'r holl bolisiâu a gweithdrefnau ac roedd y dogfennau hynny a welsom i gyd yn gyfredol. Byddai'r staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau wyneb yn wyneb, ac roedd y dogfennau hyn hefyd ar gael ar yriant a rennir y clinig.

Roedd y gyriant a rennir yn golygu bod y polisiâu ar gael i bob aelod o'r staff ac i arbenigwyr a fyddai'n ymweld â'r gwasanaeth, ac roedd copïau caled yn cael eu cadw yn y dderbynfa.

Roedd tystysgrifau cofrestru AGIC yn cael eu harddangos yn glir yn y clinig. Roedd y wybodaeth ar y tystysgrifau yn gywir ac roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r wybodaeth honno. Roedd tystiolaeth fod yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ar waith. Roedd y clinig yn amlwg yn cael ei arwain a'i reoli'n dda.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd prosesau ar waith ar gyfer rheoli pryderon a chwynion. Roedd y prosesau hyn wedi'u nodi yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion, ac hefyd wedi'u dogfennu mewn gweithdrefn gwyno. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn gwyno yn cael ei harddangos yn amlwg yn y clinig. Roedd hefyd angen i'r weithdrefn gynnwys gwybodaeth yn nodi pwy sy'n gyfrifol am reoli cwynion ac ymdrin â nhw, yn ogystal â threfniadau eiriolaeth i helpu unrhyw gleifion i wneud cwyn.

Dim ond un gŵyn a gafwyd yn ystod y 12 mis diwethaf ac roedd hon wedi cael ei datrys ac roedd y cwsmer yn fodlon ar y canlyniadau. Roedd y wybodaeth yn ymwneud â'r gŵyn yn cael ei chadw yn nodiadau'r claf. Dywedwyd wrth y rheolwr cofrestredig y dylid cadw cofnodlyfr cwynion yn cynnwys manylion perthnasol er mwyn nodi themâu ac er mwyn sicrhau bod aelodau eraill perthnasol o'r staff yn ymwybodol o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas ag unrhyw gwynion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod y weithdrefn gwyno yn cael ei harddangos yn amlwg
- Bod y weithdrefn gwyno yn cynnwys manylion ynghylch pwy fydd yn delio â'r gŵyn a'r trefniadau eiriolaeth

- **Bod cofnodlyfr cwynion i ddogfennu unrhyw gwynion, themâu, camau gweithredu a dyddiadau perthnasol.**

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd gan y clinig broses a threfniadau recriwtio diogel ac effeithiol ar waith i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r clinig. Disgrifiodd yr uwch-aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw y broses ar gyfer recriwtio a chynnal gwiriadau cyn cyflogi, yn ogystal â'r broses ar gyfer sicrhau bod staff yn parhau wedi'u cofrestru â phroffesiwn gofal iechyd lle y bo'n berthnasol.

Er y byddai gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal bob tair blynedd, roedd angen proses i sicrhau bod y staff yn hysbysu'r rheolwr cofrestredig os oedd newid i'w hardystiad â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn ogystal ag ardystiad blynyddol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system ar waith er mwyn cadarnhau bod unigolion yn parhau'n addas i weithio i'r clinig.

Roedd prosesau priodol ar waith hefyd i sicrhau y byddai'r clinigwyr eraill hynny sy'n gweithio i'r gwasanaeth yn cael breintiau ymarfer i weithio yn y clinig.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd digon o staff cymwys â chymwysterau a phrofiad priodol i ddarparu gofal a thriniaeth diogel i'r cleifion. Byddai nifer yr apwyntiadau a oedd ar gael a fyddai'n cael eu dyrannu yn seiliedig ar y staff clinigol a fyddai yn y clinig ar y pryd. Disgrifiodd yr uwch-aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw y broses ar gyfer sefydlu aelodau newydd o staff.

Roedd y dyddiad ar gyfer cynnal arfarniad yr unig aelod o staff a oedd yn cael ei gyflogi yn y clinig yn ystod y mis yn dilyn yr arolygiad.

Dywedwyd wrthym nad oedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal gan mai dim ond un aelod o staff oedd yn y clinig, ar wahân i'r rheolwr cofrestredig, ac y byddai unrhyw wybodaeth yn cael ei throsglwyddo ar lafar.

Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion hyfforddiant gorfodol cyfredol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Canolfan Enwaedu Cymru a Chlinig Excel

Dyddiad yr arolygiad: 22 Ionawr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oedd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Enwaedu Cymru a Chlinig Excel

Dyddiad yr arolygiad: 22 Ionawr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn dweud eu bod yn cael trafferth dod o hyd i wybodaeth, yn enwedig taflenni, yn Gymraeg.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod mwy o wybodaeth yn cael ei harddangos yn y clinig am y ffordd y gall cleifion helpu eu hiechyd a'u llesiant. Dylai'r wybodaeth hon fod yn ddwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg, lle bo hynny ar gael.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Cyfathrebu'n effeithiol Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 9 (1) (g)	Mae gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru bellach yn weithredol eto gyda deunydd hybu iechyd a llesiant ar nifer o bynciau yn Gymraeg a Saesneg https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/taflenni/ Mae'r taflenni wedi'u harchebu a byddant yn cymryd 10 diwrnod gwaith.	Zubair Wani	Amcangyfrifir canol mis Ebrill

2.	Nid oedd gwiriad hunaniaeth un plentyn wedi'i gofnodi yn ei nodiadau. Roedd y cofnodion meddygol yn cynnwys crynodeb cywir o gyflyrau arwyddocaol a meddyginiaethau hirdymor, a oedd wedi'i gynnwys gyda'r ffurflen gydsynio gan y rhiant. Dylai'r clinig	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod nodiadau'r cleifion yn cynnwys y wybodaeth ganlynol: - Dogfennu gwiriadau hunaniaeth pob claf - Adran ar y ffurflen er mwyn nodi a oes unrhyw hanes meddygol blaenorol ar gyfer plant	Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Cofnodion Cleifion Rheoliad 23 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae ffurflen ar gyfer gwiriadau adnabod cleifion bellach yn ofynnol ar gyfer pob claf a chaiff ei lanlwytho i'r system glinigol. Caiff archwiliad o'r broses ei gynnwys fel rhan o'r cylch archwilio nesaf. Mae adran ar y ffurflen ar gyfer plant wedi'i hychwanegu i gynnwys hanes meddygol blaenorol ar gyfer plant (a fyddai hefyd wedi'i grybwyll ar yr holiadur i gleifion/plant ond a fyddai'n cael ei ailystyried yma eto gyda'r rhieni).	Zubair Wani	Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau

ystyried cynnwys y wybodaeth hon o fewn y nodiadau cyn llawdriniaeth, yn ogystal â'r ffurflenni cydsynio. Roedd anghenion y cleifion yn cael eu hasesu'n briodol. Dylai'r crynodeb o hanes meddygol a meddyginiaethau gael ei drafod â'r rhieni a'i grynhoi fel rhan o'r nodiadau trin, er mwyn cadarnhau'r drafodaeth am wybodaeth berthnasol. Dylid ystyried dogfennu pa wybodaeth a gafodd ei hystyried er mwyn darparu gwell	- Y crynodeb hanes meddygol a meddyginiaethau a drafodwyd â'r rhieni ac a grynhowyd yn y nodiadau trin - Dogfennu pa wybodaeth a ystyriwyd a'r hyn a drafodwyd		Ychwanegwyd crynodeb o hanes meddygol a meddyginiaethau at bob templed triniaeth/llawdriniaeth er mwyn cynnwys hanes meddygol a meddyginiaethau. Ychwanegwyd adran lle gellir cynnwys paragraff yn nodi pa wybodaeth a ystyriwyd ac a drafodwyd â'r claf am ei hanes meddygol a thriniaethau arfaethedig at y		Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau
---	---	--	---	--	---

	tystiolaeth o'r drafodaeth.	Dylid hefyd gael cadarnhad dilynol o'r cydsyniad ar-lein pan fydd y claf yn y clinig a dylid dogfennu hyn.		ffurflenni nodiadau trin ar y system glinigol er mwyn sicrhau gwybodaeth gyflawn.		
3.	Dywedwyd wrthym hefyd fod y claf neu ei riant neu ofalwr yn cael llythyr i'w roi i'w meddyg teulu i esbonio'r driniaeth a roddwyd. Yn ddelfrydol, dylai'r clinig ei anfon, neu dylid ei gynnwys fel rhan o'r alwad ddilynol er mwyn gofyn i'r cleifion neu i'w hatgoffa y dylid rhoi'r llythyr i'w meddyg teulu.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod yn cadarnhau a gafodd y llythyr ei roi i'r meddyg teulu fel rhan o'r alwad ddilynol ac atgoffa'r cleifion bod angen gwneud hynny.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Cofnodion Cleifion Rheoliad 23 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Ychwanegwyd cwestiwn yn gofyn a yw'r cleifion/gofalwyr wedi rhoi llythyr y clinig i'w meddyg teulu neu i feddyg teulu eu plentyn at y ffurflen ar gyfer yr holiadur dilynol ar y feddalwedd glinigol, er mwyn sicrhau na chaiff hyn ei golli.	Zubair Wani	Wedi'i gwblhau

4.	Nid oedd y weithdrefn gwyno yn cael ei harddangos yn amlwg yn y clinig. Roedd hefyd angen i'r weithdrefn gynnwys gwybodaeth yn nodi pwy sy'n gyfrifol am reoli cwynion ac ymdrin â nhw, yn ogystal â threfniadau eiriolaeth i helpu unrhyw gleifion i wneud cwyn. Dywedwyd wrth y rheolwr cofrestredig y dylid cadw cofnodlyfr cwynion yn cynnwys	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol: • Bod y weithdrefn gwyno yn cael ei harddangos yn amlwg • Bod y weithdrefn gwyno yn cynnwys manylion ynghylch pwy fydd yn delio â'r gwyn a'r trefniadau eiriolaeth	Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau Rheoliad 24 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae'r weithdrefn gwyno, yn ogystal â phwy sy'n gyfrifol am ddelio â chwynion, wedi'i harddangos yn yr ardal aros, ynghyd â'r trefniadau eiriolaeth. Ychwanegwyd cofnodlyfr cwynion sy'n dogfennu'r broses gwyno gyfan at yriant a rennir y clinig.	Zubair Wani Zubair Wani	Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau
----	--	---	--	--	---------------------------------------	---

	manyllion perthnasol er mwyn nodi themâu ac er mwyn sicrhau bod aelodau eraill perthnasol o'r staff yn ymwybodol o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas ag unrhyw gwynion.	Bod cofnodlyfr cwynion i ddogfennu unrhyw gwynion, themâu, camau gweithredu a dyddiadau perthnasol.				
5.	Er y byddai gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal bob tair blynedd, roedd angen proses i sicrhau bod y staff yn hysbysu'r rheolwr cofrestredig os oedd newid i'w hardystiad â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system ar waith er mwyn cadarnhau bod unigolion yn parhau'n addas i weithio i'r clinig.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol - Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu Rheoliad 9 (1) (h) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Caiff ffurflen datganiad ei hanfon gan yr adran Adnoddau Dynol at staff bob blwyddyn er mwyn sicrhau na chafwyd unrhyw euogfarnau na newidiadau i'w hardystiad â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ers eu gwiriad diwethaf a chaiff y ffurflen hon ei chadw ar eu ffeil er mwyn sicrhau bod y staff yn parhau'n addas i weithio yn eu rôl yn y clinig.	Zubair Wani	Wedi'i gwblhau

ogystal ag ardystiad blynyddol.					
------------------------------------	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: Zubair Wani

Enw (priflythrennau): Zubair Wani

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 24.3.25